PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD LLUN, 27 CHWEFROR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Owen Jones(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Gibson, Green, Lancaster, Lewis, Lloyd Jones, Jackie Parry a/ac Wood |

59 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim ymddiheuriadau am absenoldeb.

60 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau

61 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

62 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DRAFFT 2023 - 2026 A CHYNIGION CYLLIDEBOL DRAFFT 2023/24

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau graffu ar yr adrannau hynny o Gynllun Corfforaethol drafft 2023-26 a Chynigion Cyllideb drafft 2023/24 a oedd yn ymwneud â Phortffolios y Cabinet a gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Bydd y Cabinet yn ystyried sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor cyn cwblhau ei gynigion cyllideb. Bydd cynigion cyllideb drafft y Cabinet yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 2 Mawrth 2023 i'w cytuno ac yna byddai argymhellion cyllideb y Cabinet yn cael eu hystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Cynllun Corfforaethol 2023-26 yn nodi fframwaith strategaeth y Cyngor ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r weinyddiaeth fel y manylir yn y datganiad polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut y bydd yr awdurdod yn cyflawni ac yn monitro'r cynnydd ar yr amcanion lles canlynol:

• Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu
• Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn
• Cefnogi pobl allan o dlodi
• Cymunedau diogel, hyderus a grymus
• Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
• Caerdydd Un Blaned
• Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Rhoddodd yr adroddiad grynodeb o'r cefndir a'r cyd-destun lle mae’r cynigion cyllideb drafft wedi'u gosod a sut mae’r cynigion cyllideb ddrafft a'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol 2023-26.

Nododd yr adroddiad y bydd Caerdydd yn cael cynnydd o 9.0% mewn Cyllid Allanol Cyfun yn 2023/24 - sy'n cyfateb i £48.165 miliwn mewn termau ariannol. Roedd y setliad uwch na'r cyfartaledd yn gysylltiedig â data a oedd yn tynnu sylw at newidiadau yn y boblogaeth a nifer y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

Mae cyhoeddiadau grant penodol yn dangos cynnydd cyffredinol o £63 miliwn (ar lefel Cymru gyfan), er y bydd sawl grant yn cael newidiadau nodedig. Bydd grantiau gwerth £41 miliwn yn dod i ben yn 2023/24, tra bod £32 miliwn o gyllid eto i'w gadarnhau. Mae'r newidiadau mwyaf sylweddol yn cynnwys £132 miliwn ychwanegol i gefnogi rhyddhad ardrethi nad yw’n ymwneud â Covid yn y sector Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, a gostyngiad o £55.75 miliwn (74%) yn y Cynnig Gofal Plant a fydd nawr yn cael ei dalu'n uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant preifat. Mae Caerdydd wedi cael cadarnhad y bydd ei Grant Cymorth Tai yn parhau ar ei lefel 2022/23 o £21.9 miliwn yn 2023/24, gydag arwyddion y bydd yn parhau ar y lefel honno hyd at 31 Mawrth 2025.

Ni ddisgwylir y setliad terfynol tan ddechrau mis Mawrth 2023. Tynnodd yr adroddiad sylw at un newid disgwyliedig yn y setliad terfynol mewn perthynas â phensiynau'r Awdurdod Tân ac Achub.

Rhoddwyd crynodeb o’r gyllideb refeniw yn yr adroddiad. Nododd y crynodeb fwlch yn y gyllideb o £24.216 miliwn. Byddai'r strategaethau canlynol yn cael eu gweithredu i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb.

- Arbedion Effeithlonrwydd (10,090)
- Arbedion a Mesurau Corfforaethol (3,000)
- Gostyngiad yn y Mecanwaith Gwydnwch Ariannol (1,800)
- Cynigion ar gyfer Newid Gwasanaethau (2,776)
- Cynnydd o 3.95% yn y Dreth Gyngor (effaith net ar ôl yr effaith ar y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor) (6,550)

CYFANSWM (£24.216 miliwn)

Rhoddodd yr adroddiad fanylion pellach am bob un o'r strategaethau a nodir uchod.

Byddai Arbedion Effeithlonrwydd yn dod o adolygiad o drefniadau staffio (£3.385 miliwn); gostyngiadau mewn costau eiddo (£0.197 miliwn); gostyngiadau mewn gwariant allanol (£2.813 miliwn; a chynnydd mewn cyfleoedd o ran sicrhau incwm a grantiau (£3.695 miliwn).

Byddai Arbedion a Mesurau Corfforaethol yn cynnwys gostyngiad o £1 miliwn yng Nghyllideb Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor (o £2 filiwn i £1 miliwn); gostyngiad o £1 miliwn yng nghyllideb wrth gefn benodol y Gwasanaethau Oedolion (o £3 miliwn i £2 miliwn); ac £1 miliwn o arbedion mewn cyllidebau corfforaethol gan gynnwys y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor ac Yswiriant.

Mae'r Mecanwaith Gwydnwch Ariannol (MGA) yn gyllideb gwerth £3.8 miliwn a sefydlwyd i helpu'r Cyngor i ddelio ag ansicrwydd ariannol. Mae'n cael ei ddefnyddio i

fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth, ond mae buddsoddi yn rhywbeth untro ac yn cael ei benderfynu bob blwyddyn. Cynigiwyd hefyd bod y MGA yn cael ei leihau £1.8 miliwn yn 2023/24.

Crynhowyd y cynigion ar gyfer newid gwasanaethau a fydd yn effeithio ar y lefel bresennol o wasanaethau, a manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda defnyddwyr yr effeithir arnynt, yn Atodiad 5b a 7a yr adroddiad.

Byddai cynnydd o 3.95% yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu incwm ychwanegol net o £6.550 miliwn.

Rhoddodd yr adroddiad hefyd drosolwg o'r Rhaglen Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2023/24 i 2027/28. Mae'r Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn amlinellu cynigion gwariant cyfalaf o £1.413 biliwn ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2023/24 i 2027/28, gyda £314 miliwn o hyn yn cael ei glustnodi ar gyfer 2023/24.

63 : TROSOLWG CORFFORAETHOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau ac Ian Allwood Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Yn dilyn datganiad gan yr Aelod Cabinet, rhoddodd y swyddogion gyflwyniad yn rhoi trosolwg o Gynigion Cyllideb 2023-24.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnwyd i'r swyddogion a oeddent yn hyderus y byddai'r lefel ddisgwyliedig o gyllid grant yn cael ei sicrhau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod elfen o risg o ran grantiau cyfalaf a refeniw. Mae grantiau cyfalaf yn tueddu i gael eu darparu ar gyfer cynlluniau penodol ac mae'r cynlluniau hirdymor hyn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. O ran grantiau refeniw, mae cyllid yn tueddu i gael ei roi ar sail 1 flwyddyn ac os yw'r rhain yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth yna mae elfen o risg. Roedd y swyddogion yn hyderus y byddai cyllid grant refeniw ar gael am y 2 neu 3 blynedd nesaf. Fodd bynnag, bydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cael ei adnewyddu yn ystod y tymor hwnnw a bydd diogelwch cyllid grant yn cael ei ystyried fel rhan o hynny.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod y cynigion cyllideb yn cynnwys gostyngiad o 9.6 o swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

- Gofynnodd yr aelodau ble mae'r gorwariant o £1.7 miliwn ym mis 9 yn yr adran Rheoli Gwastraff wedi codi. Dywedwyd wrth yr aelodau fod problem sylweddol ynghylch anwadalrwydd yr incwm y mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn. Rhoddodd atodiad 2 yr adroddiad monitro Mis 9 fwy o fanylion.

- Gofynnwyd am sylwadau ar y cynnig i gyflwyno premiwm Treth Gyngor 100% ar gyfer eiddo gwag. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai dau bremiwm gwahanol yn cael eu cyflwyno. Ar hyn o bryd mae premiwm 50% ar gyfer eiddo gwag hirdymor. Byddai'r cynnig yn cynyddu hyn i 100% o fis Mawrth 2023 a'r disgwyl oedd y byddai hyn yn codi £300,000 yn ychwanegol a fyddai'n cael ei gyfeirio at gefnogi costau tai a mynd i'r afael â digartrefedd. Cynhelir ymgynghoriad ar hyn o bryd ar yr ail opsiwn i gyflwyno premiwm Treth Gyngor 100% ar gyfer ail gartrefi. Os caiff ei symud ymlaen, dim ond o 2024/25 y gellir cyflwyno'r premiwm hwn. Dewiswyd y premiwm 100% gan y byddai cost i gasglu'r premiymau ac roedd posibilrwydd hefyd i rai eiddo geisio eithriadau. Bydd y premiymau 100% yn cael eu monitro, yn enwedig i nodi a yw cartrefi gwag yn cael eu defnyddio eto. Os oedd yr awdurdod am amrywio'r naill bremiwm neu'r llall yn y dyfodol, yna gellir cyflwyno hyn yn y flwyddyn dreth ganlynol, yn amodol ar ymgynghoriad.

- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y polisi corfforaethol ar gyfer cynyddu ffioedd a newidiadau. Dywedodd y Pennaeth Cyllid fod ystod eang o ffioedd a thaliadau ar draws yr awdurdod. Bydd gan bob cyfarwyddiaeth agwedd strategol at eu ffioedd a'u taliadau. Mae nifer o gydrannau'n cael eu hystyried ynghyd â'r hyn y mae'r ffioedd a'r taliadau'n anelu at ei gyflawni. Er enghraifft, mae rhai taliadau'n cynhyrchu incwm - mae rhai ffioedd a thaliadau wedi'u hanelu at newid ymddygiad - mae rhai ffioedd a newidiadau wedi’u hanelu at gynhyrchu incwm a newid ymddygiad. Roedd y premiwm Treth Gyngor a throseddau traffig sy’n symud yn enghreifftiau da o'r rhain. Bydd y timau cyfrifeg yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn y cyfarwyddiaethau o ran cytuno ar lefelau priodol o ffioedd a newidiadau. Dywedwyd wrth yr aelodau y bydd Fframwaith Polisi Incwm yn cael ei gyflwyno i strategaeth y gyllideb o fis Gorffennaf 2023. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod yr awdurdod yn dal mewn cyfnod pontio yn dilyn pandemig Covid-19, yn enwedig mewn meysydd lle roedd cynhyrchu incwm yn sbardun allweddol ac felly mae swyddogion cyllid yn ofalus o ran peidio â gorbwysleisio rhagdybiaethau incwm.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

64 : RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a swyddogion o'r gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

Yn dilyn datganiad byr gan yr Aelod Cabinet, gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau a allai'r cynnig i leihau'r oriau agor mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref (CAGCau) arwain at gynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon a beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud i leihau'r risgiau hynny.

Dywedodd y swyddogion mai'r bwriad oedd sicrhau y bydd o leiaf un CAGC ar agor bob dydd bob amser. Mae'r CAGCau yn gweithredu ar 50% ar ddiwrnodau defnydd isel ar hyn o bryd (dydd Mawrth a dydd Mercher) felly rhagwelwyd na fyddai cau pob CAGC bob yn ail diwrnod yn effeithio ar y swm cyffredinol o ailgylchu a dderbyniwyd. Byddai'r cynigion yn gofyn i'r gweithlu newid ei batrymau gwaith ac roedd ymgynghori â'r undebau llafur ynglŷn â'r cynigion yn parhau. Cadarnhaodd y swyddogion fod y penderfyniad arfaethedig i gau wedi'i arwain gan ddata. Byddai oriau gwaith staff yn gostwng i 37 awr, eu horiau contract presennol, lle bo hynny'n bosib. Ni fyddai swyddi'n cael eu colli o ganlyniad i'r cynnig.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i barhau gyda'r rhaglen canolfannau ailgylchu dros dro. Dywedodd y swyddogion fod y canolfannau dros dro wedi gweithio'n weddol dda ar ddechrau'r rhaglen ond ar ôl ychydig roedd y defnydd ohonynt wedi lleihau'n sylweddol. Roedd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddarparu cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr agored i niwed sydd heb fynediad i geir a'r posibilrwydd o dreialu cyfleusterau symudol yn ystod y flwyddyn i ddod. Byddai'r cyfleusterau symudol yn defnyddio lleoliadau penodol ar draws y ddinas er mwyn casglu deunyddiau na ellir eu casglu drwy gasgliadau ymyl y ffordd fel pren, eitemau trydanol bach, ac ati.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i wella ailgylchu o finiau cymunedol yn benodol. Dywedodd y swyddogion fod y cynllun ailgylchu wedi'i wahanu yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd i stoc tai safonol ar draws y ddinas. Ar ôl cwblhau'r cam hwnnw, byddai mwy o ffocws ar fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd y swyddogion yn ymwybodol bod cyfleusterau biniau cymunedol yn cael eu camddefnyddio mewn gwahanol leoliadau ar draws y ddinas ac roedd trafodaethau'n digwydd ar wella diogelwch a phwy sydd â mynediad i'r biniau hynny. Mae cynllun peilot hefyd ar y gweill sy'n darparu biniau wedi'u gwahanu i fflatiau ar gyfer papur/cerdyn ond nid gwastraff cyffredinol.

- Nododd yr aelodau fod £815,000 wedi'i neilltuo yn y gyllideb ar gyfer adolygiad o weithredu opsiynau cymeradwy sy'n deillio o adolygiad o Strategaeth y Gwasanaeth Ailgylchu. Gofynnodd yr aelodau am ddadansoddiad o'r ffigwr hwnnw ac a fyddai hynny'n cynnwys cost prynu cerbydau. Dywedodd y swyddogion nad oedd y ffigwr yn gysylltiedig â'r gyllideb sylfaenol ac na fyddai'n cael ei ddefnyddio i brynu cerbydau. Byddai'r swm yn cael ei ddyrannu tuag at gostau 'untro' fel bagiau amldro a chyfathrebu/ymgysylltu â thrigolion. Mae'r cynlluniau peilot wedi rhoi syniad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth ailgylchu wedi'i wahanu dros gyfnod o 12 mis.

- Gofynnodd yr aelodau pa gyllideb a oedd ar gael i brynu'r cerbydau newydd sydd eu hangen. Dywedodd y swyddogion na fyddai'r gyllideb ar gyfer cerbydau yn newid yn sylweddol. Byddai math newydd o gerbyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer casgliadau gwydr ar wahân a bydd y cerbydau hyn yn cael eu hariannu o incwm ailgylchu gwydr. Mae'r model yn cynrychioli safle cost-niwtral cynaliadwy wrth symud ymlaen.

- Gofynnodd yr aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad yr awdurdod i ddod o hyd i safle ar gyfer cyfleuster ailgylchu yng ngogledd y ddinas. Cydnabu'r swyddogion fod angen cyfleuster ailgylchu ac ailddefnyddio yng ngogledd y ddinas. Roedd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid yn y trydydd sector gyda'r bwriad o sefydlu menter ail-ddefnyddio. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd y Pwyllgor fod darparu cyfleuster yng ngogledd y ddinas yn parhau'n flaenoriaeth i'r weinyddiaeth.

- Nododd yr aelodau fod y taliadau am gasgliadau gwastraff swmpus wedi cynyddu 60% a bod ffi archebu o £5 hefyd wedi'i chyflwyno. Gofynnodd yr aelodau a oedd y ffi archebu yn ychwanegol neu'n cael ei chynnwys o fewn cyfanswm y gost, am y rhesymeg dros y cynnydd ac am sylwadau ar yr effaith bosib ar dipio anghyfreithlon. Dywedodd y swyddogion fod digideiddio'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus wedi cynyddu swm y deunyddiau sy'n cael eu casglu. Nid oedd newid i'r tâl am y gwastraff sy'n cael ei gasglu. Roedd y ffi archebu yn ychwanegol i'r ffi a godir ac fe'i cyflwynwyd er mwyn lleihau aneffeithlonrwydd. Dengys tystiolaeth fod nifer fawr o bobl yn trefnu casgliadau gwastraff swmpus ond nad ydynt yn cyflwyno unrhyw wastraff i'w gasglu wedyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr y rhagwelwyd y byddai cyflwyno ffi archebu yn lleihau swm yr amser a wastreffir ac yn arwain wedyn at welliant mewn perfformiad. O ganlyniad, byddai hyn yn helpu i leihau'r risg o dipio anghyfreithlon.

- Gofynnodd Aelod a oedd yn bosib lleihau swm y poteli plastig untro sy'n cael eu darparu i ddisgyblion mewn ysgolion. Dywedodd y swyddogion fod yr awdurdod yn hyrwyddo cyfleusterau ail-lenwi ac ar hyn o bryd mae wrthi'n gosod gorsaf ail-lenwi mewn adeiladau prysur yng nghanol y ddinas. Rhagwelwyd newid sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf yn hyn o beth. Mae'r awdurdod hefyd yn gweithio gydag ysgolion er mwyn gwella eu trefniadau. Roedd y swyddogion o'r farn nad yw poteli plastig yn broblematig os ydynt yn cael eu hailgylchu'n iawn.

- Nododd yr aelodau fod CAGCau yn gweithredu ar gapasiti 50% ar adegau penodol. Gofynnodd yr aelodau a fyddai holi'r data sydd ar gael yn cynnig cyfle i fod yn fwy hyblyg gydag oriau agor, i adlewyrchu'r oriau y mae trigolion am ddefnyddio'r cyfleusterau, a thrwy hynny gynyddu effeithlonrwydd. Dywedodd y swyddogion fod data da ar gael gan CAGCau ers i'r system trefnu ymweliadau gael ei chyflwyno. Edrychwyd ar ddefnydd drwy gydol y dydd. Ceir defnydd isel ar adegau penodol ac ar ddiwrnodau penodol. Ymgynghorwyd yn gyhoeddus â'r opsiynau i gwtogi oriau neu gau ar ddiwrnod penodol. Roedd yr ymgynghoriad o blaid cau ar ddiwrnod penodol. Awgrymodd y swyddogion fod darparu gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd effeithlon yn effeithio ar y defnydd o CAGCau.

- Cadarnhaodd y swyddogion fod y dyraniad cyfalaf a neilltuwyd yn y gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer darparu canolfan ailgylchu yng ngogledd y ddinas. Nododd yr aelodau na ddyrannwyd unrhyw gyllid refeniw ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r swyddogion a ragwelwyd y byddai disgwyl i bartner yn y trydydd sector yn y

dyfodol ysgwyddo'r gost refeniw. Dywedwyd wrth yr aelodau yr ystyrir gweithio mewn partneriaeth gyda grŵp o sefydliadau yn y sector gwirfoddol, pob un â rôl neilltuol, gyda Cadwch Gymru'n Daclus o bosibl â rôl drosfwaol a Chyngor Caerdydd yn darparu llywodraethiant. Byddai rhywfaint o gyllid refeniw ar gael drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd yr aelodau y byddai unrhyw gynigion yn destun achos busnes llawn, a fyddai'n cynnwys y costau cyfalaf a'r cyllid refeniw, cyn i'r Cabinet eu cymeradwyo. Dywedodd y swyddogion fod y costau a neilltuwyd yn y gyllideb yn arwyddol ac y byddent yn caniatáu datblygu achos busnes yn gyflym pe bae safle addas yn cael ei nodi.

- Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion wneud sylw ar yr effaith debygol y byddai'r system casglu gwastraff newydd yn ei chael ar gyllidebau. Dywedodd y swyddogion fod y cynllun peilot a model glasbrint Llywodraeth Cymru'n dangos y byddai angen tua 20 cerbyd ychwanegol yn y fflyd cerbydau. Bydd angen cerbydau arbenigol ar gyfer pob math o gasgliad - e.e. bydd y cerbyd gwastraff bwyd wedi'i selio, byddai'r cerbyd casglu gwydr wedi'i inswleiddio i gyfyngu ar sŵn, ac ati. Bydd nifer o gerbydau yn cael eu hurio fel y gellir ail-gydbwyso rowndiau yn y dyfodol os oes angen. Mae model y cynllun casgliadau wedi'u gwahanu cyfredol ar gyfer casgliadau safonol mewn stoc dai arferol yn gost niwtral. Bydd angen modelu'r costau sy'n gysylltiedig â chasgliadau wedi'u gwahanu mewn tai amlfeddiannaeth a fflatiau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

65 : NEWID YN YR HINSAWDD

Yn dilyn datganiad byr gan yr Aelod Cabinet, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd gyflwyniad. Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi'u crynhoi isod:

- Gofynnodd yr aelodau am fanylion pellach ynglŷn â'r strategaeth ar gyfer monitro ansawdd aer mewn amser real. Dywedwyd wrth yr aelodau fod rhwydwaith o orsafoedd monitro ansawdd aer yn cael ei osod ar draws y ddinas a bod cynlluniau ar waith i gynyddu nifer y gorsafoedd ymhellach. Fodd bynnag, mae'r swyddog cyfrifol wedi gadael yr awdurdod ac nid yw'r swydd wedi'i llenwi eto.

- Nododd yr aelodau'r £300,000 a neilltuwyd ar gyfer y cynllun peilot tacsis allyriadau isel. Roedd Aelod o'r farn bod y moratorium ar nifer y trwyddedau cerbydau a ganiateir yn y ddinas yn gweithredu'n rhwystr i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Gofynnwyd i'r swyddogion egluro sut y byddai'r £300,000 yn cael ei ddyrannu. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y materion hynny'n cael sylw fel rhan o'r Strategaeth Dacsis, gan gynnwys trafodaeth ar sut i greu cymhellion i ddatblygu fflyd tacsis carbon isel yn y ddinas. Derbyniwyd bod y trefniadau

presennol, lle mae cerbydau'n cael eu prynu a'u prydlesu yn ôl i aelodau'r fasnach, yn anfoddhaol. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu ac mae'r arfer gorau yn y maes hwn ledled y DU yn cael ei ystyried.

- Wrth ymateb i bwynt a godwyd gan Aelod o'r Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr mai mater rhanbarthol oedd y mater tacsis trawsffiniol a'i fod o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

- Gofynnodd yr aelodau a fyddai pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer y fasnach dacsis yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun pontio. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cyfleoedd i nodi lleoliadau addas ar gyfer pwyntiau gwefru yn cael eu hymchwilio.

- Gofynnodd Aelod a yw cynlluniau SDCau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trin carthion. Dywedwyd wrth yr aelodau fod cynllun SDCau yn ymwneud â thrin dŵr wyneb yn unig. Mae cynlluniau SDCau yn orfodol mewn datblygiadau o fwy nag 1 uned.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

66 : CYNLLUNIO STRATEGOL A THRAFNIDIAETH

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dan De’Ath, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a swyddogion o’r gyfarwyddiaeth Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd.

Yn dilyn datganiad byr gan yr Aelod Cabinet, gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu ofyn cwestiynau am y wybodaeth a gafwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi’u crynhoi isod:

- O ran y cynnydd mewn taliadau am wasanaethau profedigaeth, gofynnodd yr Aelodau a fyddai cymorth yn cael ei ddarparu i aelwydydd incwm isel neu a fyddai modd cynnal prawf modd ar gyfer taliadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Caerdydd wedi bod yn ofalus o ran cynyddu taliadau yn y maes hwn. Mae'r taliadau wedi'u meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill ac yn is na'r cyfartaledd. Cytunodd y Cyfarwyddwr i roi mwy o fanylion am y cymorth a ddarperir ar gyfer angladdau cost isel yn dilyn y cyfarfod.

- Cyfeiriodd yr aelodau at y newidiadau mewn costau ar gyfer trwyddedau parcio preswylwyr.
  Deallwyd bod costau ail drwydded yn hanesyddol yn uchel er mwyn atal perchen ar ail gar. Gofynnodd yr aelodau pam na chafodd y gwahaniaeth rhwng trwyddedau cyntaf ac ail drwyddedau ei gynnal. Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd lle i gynyddu costau trwyddedau yn seiliedig ar faint neu allyriadau'r cerbyd yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd y gwahaniaeth rhwng

trwyddedau cyntaf ac ail drwyddedau'n rhesymegol ac nad oedd wedi cael ei adolygu ers dros 10 mlynedd. Mae'r taliadau bellach yn ceisio meincnodi'n erbyn dinasoedd eraill y DU. Mae Caerdydd yn codi llawer llai na chymaryddion. Roedd y cyfle i ddefnyddio maint neu allyriadau cerbyd i gyfrifo'r tâl trwydded yn gymhleth a gall roi'r rheiny nad oeddent yn gallu fforddio cerbydau newydd/trydan o dan anfantais. Cafodd y cynnig ei raddio'n goch/oren gan ei bod yn debygol y byddai llawer o ddiddordeb a chraffu gan y cyhoedd.

- Arsylwodd Aelod yn anecdotaidd, pan gafodd swyddog croesi ysgol lleol ei ddileu, i nifer y rhieni a oedd yn gyrru plant i'r ysgol gynyddu ac y cafodd hyn effaith andwyol ar ansawdd aer a thagfeydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr y buddsoddwyd mewn croesfannau ysgol a bod y croesfannau wedi'u gwella. Mae lleoliadau'n cael eu monitro'n agos iawn o ran eu diogelwch.

- Gofynnodd yr aelodau a oedd cyhoeddiad diweddar ynglŷn â chyllid i fysus yn cyflwyno unrhyw heriau i'r Strategaeth Fysus. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod pryderon am y cymorth sy'n cael ei roi i wasanaethau bws yn y ddinas. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth gyda llwybrau yn ystod y pandemig, ond mae'r cymorth hwnnw bellach wedi'i dynnu'n ôl.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod taliadau parcio Caerdydd yn cymharu'n ffafriol â dinasoedd eraill yn y rhanbarth. Y bwriad yw aros ychydig yn is na'r gost gyfartalog sy'n cael ei chodi mewn dinasoedd eraill.

- Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr mai ffi statudol sy'n cael ei gosod yn ôl deddfwriaeth yw'r tâl am ymgynghoriad cyn ymgeisio ar geisiadau cynllunio. Mae'r gwasanaeth yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno taliadau atodol a fyddai'n cynrychioli'n well werth y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ar gyfer datblygiadau mwy. Byddai Cytundebau Perfformiad Cynllunio hefyd yn galluogi gwasanaeth mwy targedig a threfn gyllido ar wahân o ran cyngor cyn ymgeisio.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

67 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

68 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 16 Mawrth 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm